# Ysgol Bro Elwern

Dilynwch ni ar:
Follow us on:
Facebook ac instagram

# Prosbectws 2025-26 Prospectus

# Cynnwys/ Content

Croeso/Welcome

Staff yr Ysgol/ School staff
Y Corff Llywodraethol
School Governors
Amseroedd ysgol
School times
Clwb Brecwast
Breakfast club
Dyddiadau'r tymor ysgol
School term dates

Presenoldeb
Attendance
Ethos a Gwerthoedd yr Ysgol
Ethos and values
Amcanion
Objectives
Ein Gweledigaeth
Our vision
Cwricwlwm i Gymru
Curriculum for Wales

Yr Hyn sy'n Bwysig
What matters
Y Pedwar Diben
The four purpuses
Meysydd Dysgu a Phrofiad
Areas of lerning
Cynghorau Ysgol
School Councils
Anghenion Dysgu Ychwanegol
Additional Learning Needs

Darpariaeth i ddisgyblion mwy abl a thalentog
Provision for More able andtalented pupils
Cynnydd ac asesu
Progress and assesments
Asesiadau ar lein
Online assesments
Adrodd ar gynnydd disgyblion
Discussing pupils progress

Addysg cydberthynas a rhywioldeb
Relationships and Sexuality Education
Addysg Grefyddol ac addoli ar y cyd
Religious Education and collective worship
Addysg Gorfforol
Physical Education
Iechyd a diogelwch
Health and Safety
Gofynion meddygol
Medical needs

Disgwyliadau Ymddygiad yn yr Ysgol
School behaviour expectations
Gwisg Ysgol
School Uniform
Gwaith cartref
Home work
Cyswllt cartref â'r ysgol
Home, school agreement
Y drefn Gwyno
Complaints procedure

Polisiau
Policies
Ysgolion iach
Healthy schools
Ysgolion iach
Healthy schools
Y Gymdeithas Rhieni ac Athrawon
Parents and Teachers association
Gweithgareddau ac Ymweliadau Allgyrsiol
Extra curricular activities and visits

CyfleCyfartal
Equal opportunities
Disgyblion ag anabledd a'r cynllun hygyrchedd
Pupils with disabilities accessibility plan
Gwasanaethau cefnogi
Support services
Cydraddoldeb
Equality
Trosglwyddo i'r Uwchradd
Secondary transition
Gair o ddiolch a manylion cyswllt
Thank you, and Contact information



# Croeso Welcome

Mae'n bleser gennym gyflwyno prosbectws Ysgol Bro Elwern, er mwyn rhannu gwybodaeth am ein hysgol hefo chi. Mae croeso mawr i chi gysylltu hefo ni er mwyn trefnu i ymweld â'r ysgol, neu i gael rhagor o wybodaeth.

Mae awyrgylch hapus, gofalgar yn yr ysgol, ble mae pawb yn cael ei barchu, eu gwerthfawrogi, ac yn cael cyfle i ffynnu mewn awyrgylch cartrefol, sy'n sbarduno diddordeb y plant mewn dysgu.

Ein diben yma yn Ysgol Bro Elwern yw meithrin unigolion cyflawn a dinasyddion hyderus, sy'n barchus o'i gilydd a'r byd o'u cwmpas. Ein dymuniad yw i greu taith addysgol sydd yn llawn cyfleoedd cyfoethog sy'n addas ar gyfer pob dysgwr. Bydd taith ein dysgwyr trwy'r ysgol yn gyfle iddynt gasglu llu o atgofion a phrofiadau gwerthfawr i'w cadw a'u trysori am oes. Rydym yn annog chwilfrydedd, meithrin cymelliant a pharatoi ein plant i fod yn oedolion cyflawn y dyfodol.

Ysgol wledig, gymunedol, naturiol Gymraeg ydi Ysgol Bro Elwern. Rydym yn ffodus o fod mewn ardal sydd yn llawn hanes, ac rydym yn dathlu hynny ymhob rhan o'n gwaith. Mae rhoi lle blaenllaw i'r iaith gymraeg, ein diwylliant a'n hanes ni fel gwlad yn hanfodo,l ac wedi'i gwreiddio'n ddwfn ym mywyd pob dydd yr ysgol. Yma fe weithiwn fel teulu i feithrin unigolion sydd yn ymfalchio yn eu gwlad, ei hanes hi a'i nodweddion unigryw gyda'r diben o greu Cymry balch.

We are very pleased to present Ysgol Bro Elwern's prospectus, to share information about our school. Please feel free to contact us at the school to arrange a visit, or for more information.

There is a happy, caring environment at Ysgol Bro Elwern, where everyone is respected, valued, and given the opportunity to thrive in a homely environment, which motivates the children's interest in learning.

Our purpose here at Ysgol Bro Elwern is to nurture well-rounded individuals and confident citizens, who are respectful of each other and the world around them. We hope to create an educational journey full of opportunities for all our learners. Our pupils journey through the school will give them the opportunity to make valuable memories and experiences to treasure for life. We encourage curiosity, foster motivation and prepare our children for their future.

Ysgol Bro Elwern is a rural, natural Welsh language school. We are fortunate to be in an area full of history and we celebrate that in every part of our work. Bringing the Welsh language, culture and history into our curriculum is vital, and deeply embedded in the everyday life of the school. Here we work as a family to create individuals who are proud of their country, it's history and its unique characteristics with the purpose of creating proud, Welsh individuals.

# Gwybodaeth cyffredinol/ General Information

## Cyfeiriad/ Address:


Ysgol Bro Elwern,
Gwyddelwern
Corwen
Sir Ddinbych
LL21 9DF

**Rhif ffon/** Phone number:
01490 412 332

**Cyfeiriad e-bost/** E-mail address:
ysgol.broelwern@sirddinbych.gov.uk


**Math o ysgol:** Ysgol gynradd, wledig, naturiol Gymraeg ar gyfer disgyblion 3-11 mlwydd oed. Mae Ysgol Bro Elwern wedi ffedraleiddio hefo Ysgol Betws Gwerful Goch

Type of school: Primary, rural natural Welsh medium School for 3-11 year old pupils. Ysgol Bro Elwern has federated with Ysgol Betws Gwerful Goch.

**Capasiti-** 48 o ddisgyblion
Capacity: 48 Pupils



**Cadeirydd y Llywodraethwyr**
Chair of Governors
Carys Powell- Davies

**Pennaeth**
Head Teacher
Catrin Phillips

# Staff yr ysgol

Pennaeth Head Teacher — **Catrin Phillips**

Ysgrifenyddes Secretary — **Nest Davies**

Pennaeth cynorthwyol,CADYac athro — **Robert Kimberley**
Assistant Head teacher,ALNCO and teacher

Athrawon/ Teachers
**Emyr Gwynedd ( 3 a 4)**
**Fflur Davies (Dysgwyr Sylfaen)**
**Magi Roberts (athrawes cefnogi)**

Athrawes CPA /PPA Teacher — **Marian Jones**

Cymhorthyddion dosbarth Teaching assistants
**Iona Roberts, Gwawr Skinner a Siwan Hughes**

Cogydd yr Ysgol a glanhawraig- School cook and cleaner
**Linda Roberts**









# Llywodraethwyr

## Ysgol Bro Elwern

**Rhiant/Parent**
**Carys Powell-Davies (Cadeirydd/Chair)**
Saran Jones
Heledd Siân Roberts

**Cymuned/ Community**
Glesni Roberts
Harry Lloyd

**Awdurdod Lleol/ Local Authority**
Aled Roberts
John Roberts

**Athro/Teacher**
Robert Kimberley

**Staff**
Iona Roberts

Mae'r corff llywodraethol yn cefnogi wrth lunio cyfeiriad strategol yr ysgolion ac yn cyd-weithio hefo'r ysgolion i sicrhau'r ansawdd gorau yn yr addysg a ddarperir.

Mae'r corff llywodraethol yn wirfoddol, ac yn:

- gweithredu fel ffrind beirniadol sy'n cefnogi'r ysgol, ond hefyd yn herio ac yn gofyn cwestiynau am sut y mae'r ysgol yn gweithio a'r safonau y mae'n ei chyflawni
- gweithredu fel dolen gyswllt rhwng rhieni, y gymuned leol, yr awdurdod lleol a'r Ysgol

### Governors

The governing body is responsible for the strategic direction of their school and for the quality of the education provided.

A Governor is a volunteer that:

- supports the school, but also challenges and asks questions about how the school works and the standards it achieves.
- can act as a link between parents, the local community, the local authority and the school.

## Ysgol Betws Gwerful Goch

**Rhiant/Parent**
Emyr Williams
Catherine Hibbert
Llion Roberts

**Cymuned/Community**
**Eryl Evans (Is-gadeirydd/ Vice chair)**
Hefin Lloyd Davies

**Awdurdod Lleol/Local Authority**
Glesni Edwards
Donna Roberts

**Athrawes/Teacher**
Hannah Blackford

**Staff**
Helen Hitchmough

## Amseroedd Ysgol

Clwb brecwest- 8:00
Cyrraedd yr Ysgol- 8:50 (Amser chwarae, cyfarch athrawon a chyfoedion)
Gwers 1af- 9:00- 10:30
Amser chwarae-10:30-10:45
2il wers- 10:45-12:00
Amser cinio, ac amser chwarae- 12:00-1:00
3ydd wers- 1:00-2:00
Amser chwarae 2:00-2:15
4ydd gwers-2:15-3:15






## School times

Breakfast club- 8:00
Arrive at school- 8:50 (Playtime, and greeting teachers and peers)
1st lesson- 9:00- 10:30
Play time-10:30-10:45
2nd lesson- 10:45-12:00
Dinner time and playtime- 12:00-1:00
3rd lesson- 1:00-2:00
Play time- 2:00-2:15
4th lesson -2:15-3:15


## Clwb brecwast

Mae clwb brecwest ar gael yn ddyddiol yn yr Ysgol.

## Breakfast club

Breackfast club is available daily at school.





# Dyddiadau'r tymor
## School term dates

| Tymor | Dyddiadau |
|---|---|
| Hydref | HMS- 1/9/25 2/9/25 24/10/25<br>Ysgol yn agor i ddisgyblion- 3/9/25<br>Hanner tymor-27/10/25-31/10/25<br>Ysgol yn cau 19/12/25 |
| Gwanwyn | HMS- 5/1/25<br>Ysgol yn agor 6/1/26<br>Hanner tymor- 16/2/26- 20/2/26<br>Ysgol yn cau- 27/3/26 |
| Haf | HMS- 12/6/26 20/7/26<br>Ysgol yn agor- 13/4/26<br>Hanner tymor- 25/5/26- 29/5/26<br>Ysgol yn cau- 19/7/26 |

| Term | Dates |
|---|---|
| Autumn | HMS- 1/9/25 2/9/25 24/10/25<br>Ysgol yn agor i ddisgyblion- 3/9/25<br>Hanner tymor-27/10/25-31/10/25<br>Ysgol yn cau 19/12/25 |
| Spring | HMS- 5/1/25<br>Ysgol yn agor 6/1/26<br>Hanner tymor- 16/2/26- 20/2/26<br>Ysgol yn cau- 27/3/26 |
| Summer | HMS- 12/6/26 20/7/26<br>Ysgol yn agor- 13/4/26<br>Hanner tymor- 25/5/26- 29/5/26<br>Ysgol yn cau- 19/7/26 |



## Presenoldeb

Mae'n ddisgwyliad statudol bod ysgolion yn cadw cofnod manwl o bob absenoldeb. Gofynnwn i rieni gysylltu â ni cyn 9.15 y bore i adael i'r ysgol wybod am unrhyw absenoldeb. Mae hynny'n ein galluogi i wybod bod eich plentyn/plant yn ddiogel.

**Ein targed yma yn ysgol Bro Elwern yw 95%**

## Ffurflen gais am wyliau

Gofynnwn i rieni/gwarcheidwaid **osgoi** cymryd disgyblion o'r ysgol ar wyliau yn ystod y tymor, yn unol â Pholisi awdurdod addysg Sir Ddinbych.

## Mynd adref o'r Ysgol:

- Os oes oedolyn gwahanol i'r arfer yn dod i gasglu eich plentyn, dylid rhoi gwybodaeth am hynny i'r ysgol gan rieni neu warcheidwad y plentyn os gwelwch yn dda.
- Ni chaniateir i blentyn fynd adref gyda ffrind heb wybodaeth ymlaen llaw gan rieni neu warcheidwad.
- Os yw rhiant neu warcheidwad yn rhagweld y byddant yn hwyr yn casglu ei blentyn, os gwelwch yn dda a wnewch chi gysylltu a'r ysgol.

## Tywydd garw:

Byddwn yn cadw'r ysgol ar agor hyd eithaf ein gallu. Ond, os am unrhyw reswm rydym yn gorfod cau yr ysgol oherwydd tywydd garw, bydd y wybodaeth ar gael i'r rhieni ar wefan Cyngor Sir Ddinbych.

https://www.sirddinbych.gov.uk/cy/addysg-ac-ysgolion/cau-ysgolion-mewn-argyfwng.aspx

**Cofiwch gadw golwg ar ein tudalen facebook ac instagram hefyd, mi fyddwn ni yn rhoi neges arnynt i adael i chi wybod cyn gynted a bod modd.**

## Ethos a gwerthoedd yr Ysgol







## School ethos and values







## Attendance

There's a statutory requirement for schools to keep a detailed record of every pupil's absence.We kindly ask parents to inform us if your child is going to be absent from school by 9:15 a.m

**Our target at Ysgol Bro Elwern is 95%**

## Holiday Request Form:

We kindly ask parents/guardians **to avoid taking** pupils from the school on holiday during term time, in line with Denbighshire Education Authority's policy.

## Going Home from school:

- If there' s a different adult from usual collecting your child, please could the parent/ guardian inform the school.
- We can only allow children to go home with a friend if we have prior consent from the parent or guardian.
- If a parent or guardian anticipates that he or she will be late collecting his or her child, could you please inform us at school.

## Weather

Every effort is made to keep the school open, but for any reason we need to close the school due to the weather, we will inform parents through Denbighshire County Council's website.

https://www.sirddinbych.gov.uk/cy/addysg-ac-ysgolion/cau-ysgolion-mewn-argyfwng.aspx

**Please also check our facebook and instagram pages, we will write a message to inform you of school closures as soon as possible.**

## Ein Amcanion

Mae'r unigolyn yn ganolbwynt ei daith addysgol, ac mae'n bwysig cael cyfle i ddatblygu yn ôl ei allu a'i oed, mae hyn yn cynnwys meithrin doniau, sgiliau a diddordebau arbennig.

Rydym yn gobeithio
1) Meithrin dinasydd cyflawn.

2) Creu amgylchedd bositif ar gyfer datblygiad plentyn cyflawn fel unigolyn sy'n tyfu'n iach, ac yn datblygu'n gymdeithasol, yn ysbrydol, ac yn foesol

3) Meithrin hunan-barch a hunan-hyder y plant.

4) Darparu cyfle llawn i blant ddatblygu eu doniau, eu talentau a'u diddordebau.

5) Datblygu sgiliau plant ar draws ystod eang o feysydd.

6) Creu amgylchedd fydd yn sbarduno diddordeb mewn dysgu.

7) Meithrin balchder at ein bro, ein gwlad a'r blaned, a datblygu ynddynt barch at y byd y maent yn byw ynddo.

8) Meithrin sensitifrwydd yn eu perthynas ag eraill drwy sicrhau eu bod yn deall natur ein cymdeithas, yn gwybod am eu hawliau, a hawliau pobl eraill, a theimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi.








## Our objective

Every individual is the focus of their educational journey, and it is important that everyone has the opportunity to develop according ability and age, this includes nurturing talents, skills and interests.

We hope to:
1) Foster well-rounded individuals
2) Create a positive environment for the development of every child to be healthy, social, and moral individuals.
3) Build children's self-esteem and self-confidence.
4) Provide a full opportunity for children to develop their talents and interests.
5) Develop children's skills across a wide range of areas.
6) Create an environment that will develop an interest in learning.
7) Foster pride in our local area, our country and the planet, and develop respect for the world we live in.
8) Foster sensitivity in their relationships with others by ensuring that they understand the nature of our society, know about their rights, and the rights of others, and feel valued.

## Our vision





### Cwricwlwm i Gymru

Mae llais ein disgyblion yn ran anatod o'n cwriwcwlwm yma yn Ysgol Bro Elwern. Mae galluogi pob disgybl i ddisgleirio, ac i fod yn ganolbwynt eu taith dysgu yn hanfodol. Yn ganolog i'n cwricwlwm mae pob un o'n disgyblion. Mae eu mewnbwn a syniadau yn allweddol i lunio ein cynlluniau a llywio ein trywydd dysgu o dymor i dymor. Rhown ystyriaeth fanwl i gyd-gynllunio o fewn ein dosbarthiadau gan gadw mewn cof anghenion a diddordebau ein dysgwyr. Yn ogystal, mae'r 4 Diben yn sefyll yn gadarn wrth ein tywys drwy ein themau ac arwain ein disgyblion i fod yn unigolion parod i wynebu'r byd, ac i fwynhau wrth ddysgu.

### Curriculum for Wales

The pupils voice is an integral part of our curriculum here at Ysgol Bro Elwern. Enabling all our pupils to be the focus of their learning journey is essential. The pupils are the heart of our curriculum. Their input and ideas are key to shaping our plans and our learning from term to term. We give careful consideration to co-planning within our classes, bearing in mind the needs and interests of our learners. In addition, the 4 Purposes stand firmly in guiding us through our themes and leading our pupils to be confident individuals to face the world, and to enjoy learning.







## Yr hyn sy'n bwysig i ni

- Yr iaith Gymraeg
- Lles ac hapusrwydd
- Parch
- Ein Cymuned
- Mwynhau dysgu
- Profiadau cyfoethog
- Annog chwilfrydedd a brwdfrydedd

## What's important to us

- The Welsh language
- Wellbeing and happiness
- Respect
- Our community
- Enjoyment in learning
- Valuable experiences
- Develop curiosity and enthusiasm






## Dyma Gwynfor uchelgeisiol, galluog.



- yn gosod safonau uchel iddyn nhw eu hunain ac yn chwilio am heriau ac yn eu mwynhau
- yn datblygu corff o wybodaeth ac sydd â'r sgiliau sydd eu hangen i gysylltu'r wybodaeth honno a'i chymhwyso at wahanol gyd-destunau
- yn ymholgar ac yn mwynhau datrys problemau
- yn gallu cyfathrebu'n effeithiol mewn gwahanol ffurfiau a lleoliadau, drwy'r Gymraeg a'r Saesneg
- yn gallu egluro'r syniadau a chysyniadau y maent yn dysgu amdanynt
- yn gallu defnyddio rhif yn effeithiol mewn gwahanol gyd-destunau
- yn deall sut i ddehongli data a chymhwyso cysyniadau mathemategol
- yn defnyddio technolegau digidol yn greadigol i gyfathrebu a dod o hyd i wybodaeth a'i dadansoddi
- yn ymchwilio ac yn gwerthuso eu canfyddiadau'n feirniadol ac yn barod i ddysgu drwy gydol eu hoes

## Dyma Iola iach, hyderus.



- â gwerthoedd sicr ac sy'n sefydlu eu credoau ysbrydol a moesegol
- yn meithrin eu lles meddyliol ac emosiynol drwy ddatblygu hyder, cadernid ac empathi
- yn cymhwyso gwybodaeth am effaith deiet ac ymarfer ar iechyd corfforol a meddyliol yn eu bywyd pob dydd
- yn gwybod sut i ddod o hyd i'r wybodaeth a'r cymorth sydd eu hangen i gadw'n ddiogel ac iach
- yn cymryd rhan mewn gweithgarwch corfforol
- yn gwneud penderfyniadau pwyllog ynghylch eu ffordd o fyw ac yn rheoli risg
- â'r hyder sydd ei angen i gymryd rhan mewn perfformiadau
- yn ffurfio perthnasoedd cadarnhaol wedi'u seilio ar ymddiriedaeth a pharch at ei gilydd
- yn wynebu heriau ac yn eu trechu
- â'r sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen i ddelio â'u bywyd pob dydd mor annibynnol ag y gallant ac yn barod i fyw bywyd gan wireddu eu dyheadau fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas



## Dyma Enlli egwyddorol, gwybodus

- yn canfod, yn gwerthuso ac yn defnyddio tystiolaeth wrth ffurfio barn
- yn trafod materion cyfoes ar sail eu gwybodaeth a'u gwerthoedd
- yn deall ac yn arfer eu cyfrifoldebau a'u hawliau dynol a democrataidd
- yn deall ac yn ystyried effaith eu gweithredoedd wrth ddewis a gweithredu
- yn wybodus am eu diwylliant, eu cymuned, eu cymdeithas a'r byd yn awr ac yn y gorffennol
- yn parchu anghenion a hawliau pobl eraill, fel aelod o gymdeithas amrywiol
- yn dangos eu hymrwymiad i sicrhau cynaliadwyedd y blaned ac yn barod i fod yn ddinasyddion i Gymru a'r byd

**Yng nghalon ein Cwricwlwm mae'r pedwar diben**

**Dewch i gyfarfod...**



## Dyma Macsen mentrus a chreadigol

- yn cysylltu ac yn cymhwyso eu gwybodaeth a'u sgiliau i greu syniadau a chynhyrchion
- yn meddwl yn greadigol er mwyn ail-lunio a datrys problemau
- yn adnabod cyfleoedd ac yn manteisio arnynt
- yn mentro'n bwyllog
- yn arwain ac yn chwarae rolau gwahanol mewn timau'n effeithiol ac yn gyfrifol
- yn mynegi syniadau ac emosiynau drwy wahanol gyfryngau
- yn rhoi o'u hegni a'u sgiliau fel y bydd pobl eraill yn elwa ac yn barod i chwarae eu rhan yn llawn yn eu bywyd a'u gwaith

# Ambitious, capable Gwynfor



- set high standards for themselves and enjoy challenges
- develops knowledge and has the skills needed to connect and apply knowledge to different contexts
- inquisitive and enjoys problem solving
- able to communicate effectively in different forms and settings, through English and Welsh
- can explain the ideas and concepts they learn
- can use number effectively in different contexts
- understands how to interpret data and apply mathematical concepts
- creatively uses digital technology to communicate, find and analyse information

critically research and evaluate their findings and are willing to learn throughout life



# Healthy, confident Iola

have values and establish their spiritual and ethical beliefs

- fosters their mental and emotional wellbeing by developing confidence, resilience and empathy
- applies knowledge about the impact of diet and exercise on physical and mental health in daily life
- know how to find the information and support needed to stay safe and healthy
- engage in physical activity
- makes measured lifestyle and risk management decisions
- have the confidence needed to participate in performances
- form positive relationships based on mutual trust and respect
- faces challenges and defeats them

Have the skills and knowledge needed to deal with their daily life as independently as they can and are ready to live life fulfilling their aspirations as valued members of society



# Ethical, informed Enlli

finds, evaluates and uses evidence in forming an opinion

- discusses current affairs based on their knowledge and values
- understand and exercise their human and democratic responsibilities and rights
- understands and considers the impact of their actions in choosing and acting
- knowledgeable about their culture, community, society and the world now and in the past
- respects the needs and rights of others, as a member of a diverse society

demonstrate their commitment to ensuring the sustainability of the planet and are ready to be citizens of Wales and the world

At the heart of our curriculum is the for purpouses

Meet...

# Enterprising, creative Macsen



- Connects and applies their knowledge and skills to create ideas and products
- Thinks creatively to reframe and solve problems
- identifies opportunities and takes advantage of them
- leads and plays different roles in teams effectively and responsibly
- expresses ideas and emotions through different media,

And skills so that others will benefit and are willing to play their part fully in their life and work




# Ein Cwricwlwm
# Ein Meysydd Dysgu

Cwricwlwm ysgol yw popeth y mae dysgwr yn ei brofi yn yr ysgol. Yn Ysgol Bro Elwern ac Ysgol Betws GG, mae llais ein dysgwyr yn flaenoriaeth wrth benderfynnu beth yr ydym yn ei addysgu a sut. Mae pwyslais ar gyfoethogi'r addysgu drwy gael profiadau bywyd go iawn er mwyn ymarfer eu sgiliau drwy eu dod yn fyw. Mae hyn oll yn cael ei gwblhau drwy addysgu o dan y chwe maes dysgu canlynol....

## Celfyddydau Mynegianol

Celf, Cerddoriaeth, Drama, Ffilm, Creu yn Ddigidol

## Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu

Cymraeg, Saesneg, Ieithoedd Dramor, Llenyddiaeth




## Iechyd a Lles

Lles emosiynol a chymdeithasol, Iechyd Meddwl, Bwyta'n Iach, Corff Iach

## Mathemateg a Rhifedd

Cyfrifo, Rhesymu, Datrys Problemau, Elfenau Busnes





## Y Dyniaethau

Daearyddiaeth, Hanes, Addysg Grefyddol

## Gwyddoniaeth a Thechnoleg

Bioleg, Cemeg, Ffiseg, Dylunio a Thechnoleg, Cymhwysedd Digidol




# Our Curriculum
# Our Areas of Learning

The school curriculum is everything that the learner experiences in school. In Ysgol Bro Elwern and Ysgol Betws GG, the voice of our learners is a priority when deciding what we teach and how. There is an emphasis on enrichment of teaching by ensuring that there are real life experiences provided in order to practise their skills by bringing them to life. All this is achieved by teaching under the following six areas of learning....

## Expressive Arts

Art, Music, Drama, Film, Digital Creations

## Languages, Literacy and Communication

Cymraeg, English, Foreign Languages, Literacy




## Health and Wellbeing

Emotional and social wellbeing, Mental Health, Healthy Eating

## Mathematics and Numeracy

Calculating, Reasoning, Problem Solving, Business Elements




## Humanitites

Geography, History, Religious Studies

## Science and Technology

Biology, Chemestry, Physics, Design and Technology, Digital Competancy

When planning, we place an emphasis on broad, valuable and interesting experiences which are age appropriate for our learners. The Voice of the Child is at the core of each plan and their ideas are combined with elements of literacy, numeracy and digital competency skills.

# Cynghorau'r ysgol Our school councils

**Beth yw cyngor ysgol?**

Grŵp o ddisgyblion yr ysgol yw'r Cyngor Ysgol sydd yn cael eu hethol i gynrychioli llais a barn yr holl ddisgyblion er mwyn edrych ar ôl yr ysgol, yr amgylchedd a llesiant ein disgyblion ysgol. Rydym yn cyfarfod unwaith bob mis ac yn trafod materion pwysig. Byddent yn codi materion gyda 'r uwch-dîm a 'r llywodraethwyr ac yn gweithredu ar unrhyw gonsyrn. Bydd y Cyngor Ysgol yn trafod syniadau ar sut i weithredu 'r Cynllun Datblygu a bydd munudau o bob cyfarfod yn cael eu cofnodi.

**What is a school council?**

A group of pupils that have been elected to be the voice and opinion of the other pupils in the school, to ensure they look after the school, environment and wellbeing of our pupils. We will meet once a month and discuss important matters. We will raise matters with the Headteacher and governors and act on any concern. The School Council will discuss ideas around the School Improvement Plan and minutes of each meeting will be kept.




# Cyngor Eco



Yn Ysgol Bro Elwern mae gennym ni rÔl bwysig iawn i'w chwarae i hybu ein hysgol i fod yn wyrdd ac yn fwy ecogyfeillgar. Rydym yn gweld ein hunain fel dinasyddion egwyddorol gwybodus sy'n angerddol iawn i fod yn ddinasyddion Cymru a'r byd. Rydym yn cynnal trafodaethau i godi unrhyw faterion rydym angen gweithio arno yn ogystal â thrafod sut i ofalu am ein hamgylchedd a'n byd. Er mwyn bod yng nghyngor llwyddiannus mae rhaid gwneud yn siŴr ein bod ni'n gwybod am y naw maes pwysig yma:

- Dinasyddiaeth Fyd-eang
- Sbwriel
- Lleihau Gwastraff
- Ynni
- DŴr
- Tir yr Ysgol
- Bioamrywiaeth
- Trafnidiaeth
- Iechyd, Lles a Bwyd

Beth fyddwn ni'n gwneud yn ystod y flwyddyn?

- Cynnal taith o amgylch yr ysgol i gwblhau'r Adolygiad Amgylcheddol er mwyn sicrhau bod y Cyngor Eco'n gallu rhagweld beth sy'n dda ar hyn o bryd a beth sydd angen ei wella.
- Anfon dogfen Cyswllt â'r Cwricwlwm i'r athrawon dosbarth fel eu bod yn gallu cofnodi sut ydynt yn cysylltu'r naw maes pwysig gyda'r cwricwlwm o fewn eu haddysgu.
- Dewis pwyntiau i wella o fewn y naw maes eco a'i hysgrifennu ar Gynllun Gweithredu Eco ac yna byddwn yn ei fonitro a'i gwerthuso ar draws y flwyddyn.
- Creu Cod Eco ar gyfer yr ysgol gyfan fel eu bod yn ymwybodol sut i ofalu am ein byd o'n cwmpas.
- Byddwn yn hysbysu beth fyddwn yn gwneud ar draws y flwyddyn drwy drefnu a chynnal nifer o ddigwyddiadau a gweithgareddau hwyliog ar gyfer yr ysgol gyfan.




# Eco Council



We have an important role to play in Ysgol Bro Elwern to promote our school to be green and more environmentally friendly. We see ourselves as informed principled citizens who are very passionate about being citizens of Wales and the world. We hold discussions to raise any issues we need to work on as well as discussing how to look after our environment and our world. In order to be a successful council we must make sure we know about these nine important areas:

- Global Citizenship
- Rubbish
- Reduce Waste
- Energy
- Water
- School Grounds
- Biodiversity
- Transport
- Health, Wellbeing and Food

What will be completed throught the year?

- Conduct a tour of the school to complete the Environmental Review to ensure that the Eco Council can predict what is currently good and what needs to be improved.
- Send a Link to the Curriculum document to the classroom teachers for them to be able to record how they connect the nine important areas with the curriculum within their teaching.
- Choose points to improve within the nine eco areas and write it on an Eco Action Plan and then we will Monitor and Evaluate it throughout the year.
- Create an Eco Code for the whole school for them to be aware of how to take care of our world around us.
- We will inform what we will be doing throughout the year by organizing and holding a number of fun events and activities for the whole school.

Llysgenhadon Iaith Language Ambassadors



# Amdanom ni- criw Cymraeg

Siarter Iaith
SIR DDINBYCH
Mewn chwarae a gwaith, Cymraeg yw ein hiaith



Mae'r Gymraeg yn bwysig iawn i ni i gyd ac fel grŵp mae gennym gyfrifoldeb i wneud yn siŵr bod pawb yn yr ysgol yn gyfforddus wrth siarad yr iaith, bod pawb yn ei pharchu ac yn hyrwyddo'r neges ei fod yn anrhydedd ac nid yn fwrn.

Fel rôl yn ein grŵp rydym wedi bod yn edrych dros adroddiadau holiaduron Siarter Iaith ein hysgol. Rydym yn ceisio nodi rhai meysydd yr ydym am eu gwella yn ein hysgol. Yr hyn a nodwyd gennym oedd nad yw llawer o ddisgyblion yn defnyddio llwyfannau Cymraeg gartref, fel apiau, gemau digidol, gwefannau Cymraeg, gwylio fideos Cymraeg ar Youtube a gwrando ar gerddoriaeth Gymraeg.

Rydym am greu dolen sy'n caniatáu i ddisgyblion fwynhau gwahanol agweddau a llwyfannau sydd gan y Gymraeg i'w cynnig. Dolen sy'n hawdd ei chyrraedd i'r holl ddisgyblion ei mwynhau gartref. Gobeithio y bydd hyn yn annog disgyblion defnyddio'r Gymraeg a rhyngweithio hwyliog gyda rhieni di-Gymraeg. Bydd hyn ymhen amser yn cynyddu nifer y disgyblion nad ydynt yn defnyddio llwyfannau Cymraeg a'r niferoedd o ddisgyblion nad ydynt yn defnyddio'r iaith gartref.

# Llysgenhadon Iaith    Language Ambassadors



Siarter Iaith
SIR DDINBYCH
Mewn chwarae a gwaith, Cymraeg yw ein hiaith



The Welsh language is very important to us all, and as a group we have a responsibility to make sure that everyone in school is comfortable speaking the language, that everyone respects it and promoting the message that it is an honor, not a chore.

As a role in our group, we have been overlooking the reports of the Siarter Iaith questionnaires of our school. We try to identify certain areas that we want to improve in our school. What we identified was that many pupils aren't using Welsh platforms at home, such as apps, digital games, Welsh websites, watching Welsh videos on Youtube and listening to Welsh music.

We want to create a link that allows pupils to enjoy different aspects and platforms that the Welsh language has to offer. A link that is easily accessible for all pupils to enjoy from home. Hopefully this will encourage pupils to use the Welsh language and have fun interactions with non-Welsh parents. This, in time, will increase the numbers of pupils that don't use platforms  and the numbers of pupils that don't feel comfortable using the language at home.

# Y Cyngor Lles



Croeso mawr i dudalen y Dewiniaid Digidol yr ysgol – tîm arbennig o blant sydd yma i wneud y byd digidol yn fwy hwyliog ac yn haws i bawb! 🧙‍♂️💻

Wyddoch chi pa mor aml rydych chi'n defnyddio sgiliau digidol?
Ein gwaith ni yw helpu pawb yn yr ysgol i deimlo'n fwy hyderus wrth ddefnyddio sgiliau digidol – nid yn unig mewn gwersi penodol technoleg, ond ym mhob pwnc! 📚✨

Ond y peth pwysicaf? Rydyn ni yma i sicrhau fod pawb yn gwybod sut i gadw’ n ddiogel ar-lein.
Mae’ r rhyngrwyd fel hud – yn wych pan mae’ n cael ei ddefnyddio'n gywir, ond mae’ n rhaid bod yn ofalus hefyd. Felly, os oes gennych chi gwestiynau neu os ydych chi angen help, cofiwch ofyn i ni.

🚀 Gyda'n gilydd, gallwn wneud y byd digidol yn le gwych i bawb.

# Wellbeing Council



A big welcome to the Digital Wizards page - a special group of children who are here to make the digital world more fun and easier for everyone! 🧙‍♂️💻

Do you know how often you use digital skills?

Our job is to help everyone in school to feel more confident when using digital skills - not only in specific technology lessons, but across all subjects! 📚✨

But the most improtant thing? We are here to ensure that everyone knows how to stay safe online.

The internet is like magic - brilliant when it is used correctly, but you have to be careful too. So, if you have any questions or need any help, remember to ask us.

🚀 Together, we can make the digital world a great place for everyone.

# Anghenion Dysgu Ychwanegol

## Additional Learning Needs

Mae gan yr ysgol bolisi a gweithdrefnau er mwyn cefnogi disgyblion gyda Anghenion Dysgu Ychwanegol. Mae croeso i chi gysylltu gyda'r pennaeth er mwyn gweld y polisi yma.

### Nôd y Polisi

Sicrhau bod pob plentyn yn cael pob cefnogaeth, a chyfle cyfartal o fewn yr ysgol. Mae'r ysgol yn gyfrifol am weithredu Côd Ymarfer Anghenion Dysgu ychwanegol Cymru, ac yn monitro, adolygu a dyrannu adnoddau. Mae Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol yn yr Ysgol (Cydlynydd ADY) yn darparu cefnogaeth ac arweiniad i athrawon a rhieni o fewn yr ysgol. Mae cynnydd yn cael ei fonitro trwy gyfarfodydd adolygu cyson pan fydd rhaglenni dysgu ac ystyriaeth i'r angen am gymorth ychwanegol yn cymryd lle.

### Disgyblion mwy abl a thalentog

Ar gyfer plant mwy abl a thalentog bydd yr athrawon dosbarth mewn ymgynghoriad â'r arweinyddion cwricwlaidd yn paratoi gwaith ymestynnol ar eu cyfer yn unol â pholisi'r ysgol.






The School has a policy and procedures in place to support pupils with Additional Learning Needs. Please feel free to contact the headteacher if you would like to see the policy.

### Policy Aims

Ensuring that all our children have every support and equal opportunities within the School. The School is responsible for implementing Wales' Additional Learning Needs Code of Practice, monitoring, reviewing and allocating resources.


We have an Additional Learning Needs Coordinator at School (ALN Coordinator), they provide support and guidance to teachers and parents within the school. Progress is monitored through constant review meetings when learning programmes, and consideration for the need for additional support.

### More able and Talented Pupils

For more able children, the class teacher, in consultation with the curricular leaders, will prepare extended work for them in accordance with the school's policy.

## 12 Egwyddor Addysgu

Er mwyn gwireddu ein gweledigaeth fel Ysgol a gofynion Fframwaith y Cwricwlwm mae addysgu ardderchog yn hanfodol. Mae sicrhau amgylchedd dysgu o'r radd flaenaf, cysondeb ym mhob dosbarth ac awyrgylch diogel a chartrefol er mwyn i'n dysgwyr gael teimlo'n gyfforddus i fentro, allu gwneud camgymeriadau a dysgu o fewn amgylchedd diogel sydd yn parchu ymdrechion pawb yn hollbwysig i ni. Rydym yn ystyried, yn rhannu ac yn datblygu ein dulliau addysgu'n barhaus a hynny'n seiliedig ar ein dealltwriaeth o'r 12 egwyddor addysgegol a nodir yn Fframwaith y Cwricwlwm.




## Asesu a Chynnydd

Credwn yn gryf bod pob plentyn yn haeddu'r cyfle i wneud cynnydd yn eu dysgu ac felly dyna yw prif bwrpas i'n gweithdrefnau asesu ni yn ein hysgolion. Cawn ddarlun cyflawn o ddatblygiad bob plentyn yn eu dealltwriaeth, eu sgiliau a'u gwybodaeth wrth iddynt gamu fyny drwy flynyddoedd cynnar eu haddysg. Rhown bwyslais ar bwysigrwydd cydweithio a cyd-ddealltwriaeth o gynnydd ar draws ymarferwyr y ddwy ysgol a bod hyn yn datblygu o sgyrsiau proffesiynol rheolaidd gyda'n gilydd, rhieni a gofalwyr. Fel hyn rydym yn ymateb i Ddibenion Asesu'r Cwricwlwm....

**Dangos cynnydd**

O ymuno a'r ysgol hyd nes gadael mae sampl o waith bob dysgwr yn cael ei gasglu a'i gadw mewn ffeil personol. Fe gedwir sampl o waith ysgrifennu, llafar, darllen a rhifedd yn ogystal a'u datblygiad llesol ac emosiynol.

**Cefnogaeth barhaus i'n dysgwyr yn ddyddiol**

Mae systemau asesu cyson ar lawr dosbarth yn rhoi darlun clir i ymarferwyr ac i'r dys-gwyr o'u cyrhaeddiad a beth yw eu camau nesaf. Mae'n bwysig i ni bod pob plentyn yn cymryd cyfrifoldeb dros gynnydd eu hunain o dan arweiniad ac anogaeth.

**Myfyrio a mireinio cynnydd dysgwyr unigol dros amser**

Sicrheir fod cyfnodau penodol wedi eu hamserlennu ar gyfer sgyrsiau proffesiynol er mwyn trafod cynnydd pellach. Cyfle yw hyn hefyd i sicrhau pontio effeithiol rhwng dosbarthiadau ac ysgolion uwchradd.

# Asesiadau ar lein

# Online assessments

Rydym yn gwneud asesiadau athrawon, ar Profion Cenedlaethol ar gyfer disgyblion Blwyddyn 2-6. Mae'r profion Llythrennedd wedi'i cynllunio i asesu medrau darllen y dysgwyr. Mae'r profion Rhifedd wedi'i cynllunio i asesu sgiliau gweithdrefnol a rhesymu y dysgwyr. Mae'r profion yn cael eu cwblhau yn flynyddol.

We have teacher assessments and National Test for year 2 - 6 learners. The literacy tests are designed to assess the learners' reading skills whilst the numeracy tests are designed to assess the learners' procedural and reasoning skills. The tests are completed twice a year.




## Adrodd ar gynnydd disgyblion

## Pupils progress

Cynhelir nosweithiau agored dwy waith y flwyddyn er mwyn i rieni a gwarchodwyr weld gwaith eu plant a thrafod eu datblygiad gyda'r athrawon. Ar ddechrau'r flwyddyn, rydym yn cynnal noson groesawu sydd yn wahoddiad i rieni gael cyflwyniad am y dosbarth a'r Ysgol, a chyfle i drafod sut mae eu plentyn wedi ymgartrefu/ cynnydd eu plentyn. Mae pob athro ac athrawes yn cadw asesiadau manwl am blant eu dosbarth, ac yn trafod y ffordd ymlaen gyda'r rhieni neu warchodwr yn ystod y noson agored. Ceisiwn roddi pob cyfle i rieni a gwarchodwyr weld a thrafod targedau'r plentyn. Rydym yn paratoi adroddiad ysgrifenedig bob blwyddyn.

We have two open evenings for parents and carers to see their child's work and discuss their development and progress with the teachers. We also have a Welcome evening at the beginning of the year, which is an opportunity for parents to see their child's class, and teacher and discuss how they have settled/ their progress. All teachers keep detailed assessments of their learners and discuss the way forward with the parents or carers during the open evening. We try to give our parents/ carers every opportunity to see their childs work, and discuss their progress and targets. We prepare a written report annually for parents

# Addysg Cydberthynas a rhywioldeb

Amcan Addysg Rhyw a Pherthnasoedd yw helpu a chefnogi pobl ifanc wrth iddynt ddatblygu yn gorfforol, yn emosiynol, yn foesol, ac yn ysbrydol. Rhoddir cryn bwyslais ar raglen sy'n helpu disgyblion i barchu eu hunain ac eraill ac i symud yn hyderus o blentyndod, trwy lencyndod, a maes o law i fod yn oedolion. Nôd y polisi hwn yw bod yn gwbl sensitif i ddiwylliannau a chrefyddau. Mae Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn ofyniad i bob dysgwr. Bydd y plant yn derbyn sesiynau yn gyson dros y flwyddyn. Mae'r cwricwlwm yn canolbwyntio ar

**Gydberthnasau a hunaniaeth, Iechyd rhywiol a lles a Grymuso, diogelwch a pharch.**

Cyfnod 1: o 3 oed Cyfnod 2: o 7 oed Cyfnod 3: o 11 oed

Bydd hyn yn arwain at amddiffyn y dysgwyr ac eu cefnogi i ofyn am help os oes angen.
Bydd yn:
Gwella'r ymddygiad ymysg ei gilydd.
Dysgu am bwysigrwydd hylendid personol.
Deall y newidiadau yn eu cyrff.
Gwella eu sgiliau i wneud dewisiadau gwybodus am eu hiechyd a'u lles.

**Yn Cam cynnydd 1 (3 oed i fyny)** Bydd y plant yn:-
- Deall amrywiaeth o ran teuluoedd a chydberthnasau a pham mae'r rhain yn bwysig
- Defnyddio terminoleg cywir ar gyfer pob un o rannau'r corff
- Ymwybodol o'r ffordd y mae cyrff dynol yn newid wrth iddynt dyfu
- Ymwybodol o bwysigrwydd hunanofal a hylendid personol
- Cydnabod bod corff pawb yn unigryw ac yn arbennig iddyn nhw
- Ymwybodol o hawl pawb i breifatrwydd, ffiniau personol a pha rannau o'r corff sy'n breifat
- Gallu cyfathrebu os oes rhywun yn cyffwrdd â nhw mewn ffordd sy'n gwneud iddynt deimlo'n anghyfforddus
- Ymwybodol o sut i adnabod ymddygiadau cadarnhaol a niweidiol, gan gynnwys bwlio

**Yn Cam cynnydd 2 (7 oed i fyny)** Bydd y plant yn:-
- Adnabod nodweddion gwahanol deuluoedd a chyfeillgarwch ac amrywiaeth y cydberthnasau hyn
- Deall pwysigrwydd cydraddoldeb o ran rhyw a rhywedd
- Deall gwahanol fathau o ymddygiad niweidiol neu gamdriniol a'r rôl y gall technoleg ei chwarae
- Datblygu sgiliau i adeiladu ymddygiadau a chydberthnasau cydsyniol a gwybod sut i ymateb yn ddiogel i ymddygiadau a chydberthnasau anghydsyniol all-lein ac ar-lein
- Deall sut i gadw'n ddiogel ar-lein
- Deall sut mae plant a phobl ifanc yn profi newidiadau yn ystol y glasoed
- Deall sut i reoli hunanofal a hylendid personol, gan gynnwys pwysigrwydd lles mislif
- Deall sut y mae organau atgenhedlu yn datblygu yn y corff dynol Deall frwythlondeb a phrosesau atgenhedlu
- Adnabod y broses ar gyfer beichiogrwydd a genedigaeth



## Relationships and sexuality education

The aim of Relationships and Sex Education is to assist and support young people during their physical, emotional, moral, and spiritual development. There is considerable emphasis on a programme that assists pupils to respect themselves and others and to move with confidence from childhood, through adolescence, and in due course to adulthood. The policy's aim is to be sensitive to cultures and religions. . Relationships and Sexuality Education is now mandatory for all learners.

The children will be receiving regular sessions over the year.

**In Progression step 1 (from age 3 upwards)** Children will:-

- understand diversity of families and relationships and why they are important
- use accurate terminology for all body parts
- be aware of how human bodies change as they grow
- understand the importance of personal self-care and hygiene
- recognise that everyone's body is unique and special to them
- understand everyone's right to privacy, personal boundaries and which parts of the body are private
- be able to communicate if someone is touching them in a way that makes them feel uncomfortable
- be able to recognise positive and harmful behaviours, including bullying the processes of reproduction
- use accurate terminology for all body parts
- be aware of how human bodies change as they grow
- understand the importance of personal self-care and hygiene
- recognise that everyone's body is unique and special to them
- understand everyone's right to privacy and personal boundaries.

**In Progression step 2 (from age 7 upwards)** Children will:-

- be aware of the characteristics of different families and friendships and their diversity
- understand the importance of sex and gender equality
- understand different kinds of harmful or abusive behaviour and the role technology can play • develop skills to build consensual relationships and know how to safely respond and report harmful behaviours and relationships offline and online
- understand how to keep safe online
- understand how children and young people experience changes during puberty
- know how to manage personal self-care and hygiene, including the importance of menstrual well-being
- understand how reproductive organs develop in the human body
- understanding fertility and the processes of reproduction
- recognise the process of pregnancy and birth



## Addysg Grefyddol/Religious Education

Mae Addysg Grefyddol, moesau a lles yn rhan bwysig o addysg yn Ysgol Bro Elwern a Betws Gwerful Goch. Cynhelir gwasanaethau dyddiol yn yr ysgol, yn dorfol neu yn ein dosbarthiadau. Mae gwasanaethau yn bwysig er mwyn cynnal ymdeimlad o gymuned, a gwneud cysylltiadau hefo bywyd bob dydd y plant. Addysgir ein plant am grefyddau o amgylch y byd, gyda phwyslais ar Gristnogaeth. Mae gan rieni hawl i dynnu eu plant allan o wasanaethau addoli ar y cyd a gwersi Addysg Grefyddol.



Religious Education, morals and wellbeing are an important part of education at Ysgol Betws Gwerful Goch and Bro Elwern. Daily assemblies are held as a school, or in our classes. Services are important to maintain a sense of community, and to make connections with children's daily life. Our children are taught about religions around the world, with an emphasis on Christianity. Parents have the right to withdraw their children from joint worship services and RE lessons.

## Addysg Gorfforol / Physical Education

Mae'n bwysig i ni yng nghymuned yr ysgol i sicrhau ein bod yn ysbrydoli'r holl blant i ddilyn ffordd gytbwys, iach ac actif o fyw yn yr ysgol a thu hwnt. Darperir gweithgareddau sy'n rhoi mwynhad i'r disgyblion wrth ddiwallu eu anghenion creadigol. Byddwn yn dysgu a darparu cyfle i ymarfer a gwella ar y sgiliau sy'n berthnasol i'r weithgaredd. Ceisir, yn ogystal, ddatblygu hyder drwy weithgareddau, a chreu ymwybyddiaeth o bwysigrwydd iechyd wrth ymarfer. Bwriadwn i Addysg Gorfforol fod yn fwynhad pur fel y bydd ein disgyblion yn ymddiddori ac yn barod i gymryd rhan mewn gweithgareddau corfforol amrywiol.

It is important to us in the school community that we ensure that we inspire all children to follow a balanced, healthy and active lifestyle in school and beyond. The pupils are provided with enjoyable activities in meeting with their creative needs. We will teach and provide an opportunity to practise and improve on the skills that are relevant to the activity. The development of confidence through activities, and the creation of awareness of the importance of health in practice is also important. We intend physical education to be pure enjoyment so that pupils are interested and willing to take part in various physical activities.




## Disgwyliadau o ran ymddygiad

## Behavioural expectations

Mae dangos parch, ac edrych ar ôl lles ein gilydd yn bwysig dros ben i ni yn yr ysgol. Mae'n bwysig bod bob plentyn yn teimlo'n bwysig, yn cael ei werthfawrogi, a'i barchu.

Rydym yn hybu ymddygiad positif yn yr ysgol ac yn annog ein disgyblion i:

- Feddwl yn bositif- daw eto haul
- ar fryn
- I ddysgu o 'n camgymeriadau (Gallwn newid ein diwrnod i fod yn ddiwrnod positif)
- Cymeryd amser i fyfyrio.
- Meddwl am eu lle hapus.
- Rydym yma i helpu
- Gwneud penderfyniadau doeth




Showing respect, and looking after each other's well-being is extremely important to us at school. It is important that every child feels important, valued, and respected.

We promote positive behaviour at school and encourage our pupils to:

- Think positively
- To learn from our mistakes (We can change our day into a positive day)
- Take time to reflect.
- Think about their happy place
- We are here to help
- Try to make wise decisions

## Gwisg ysgol
## School uniform

Gellir gosod archeb gwisg ysgol gan Gwmni Brodwaith. Bydd Pob disgybl yn derbyn bag gyda logo'r ysgol i gario eu llyfrau. Bydd bag ychwanegol ar gael o'r swyddfa am £5.

**Os gwelwch yn dda, a wnewch chi sicrhau fod pob eitem a wisgir wedi ei nodi'n glir gydag enw eich plentyn.**

### Dillad Addysg Gorfforol

Siorts du – crys T coch yr ysgol
Trainers i chwaraeon tu allan.


All school uniform items are available from Brodwaith, Pentrefoelas. Your child will recive a book bag with the school logo on it to carry their books to school. New bags are available in the office for £5.

**Please ensure that all items worn are clearly marked with the child's name.**

### Clothes for Physical Education

Black shorts – School Red t-shirt
Trainers for sports outside
Shoes/trainers will not be needed for gymnastics lessons in the hall.







## Gwaith Cartref

Home work

### Derbyn, Bl 1 a Bl 2

O bryd i'w gilydd, gosodir tasgau arbennig gan yr athrawon. Fel arfer, bydd y tasgau'n ymwneud â'r thema sy'n cael ei astudio yn yr ysgol. Weithiau, fodd bynnag, gall yr athrawes osod gwaith unigol er mwyn meistroli neu ymarfer sgil arbennig. Disgwylir i ddysgwyr ddarllen yn rheolaidd.

### Blwyddyn 3 a 4, 5 a 6

Bydd yr athrawon yn gosod gwaith cartref/ prosiectau i'r plant. Disgwylir i'r holl ddysgwyr ddarllen yn rheolaidd ac ymarfer eu tablau.

**Reception, Yr 1 and Yr 2** From time to time, tasks are set by the teachers. The tasks usually relate to the theme being studied at school. Sometimes, however, the teacher may set individual work in order to practice a particular skill. Pupils are expected to read regularly according to their ability.

**Year 3 and 4, 5 and 6**

The teachers will set homework/projects for the children. All pupils are expected to read regularly and practice their tables.



### Cyswllt cartref â'r ysgol



Bydd yr ysgol yn:

- gosod safonau uchel ac yn cynnig addysg o'r radd flaenaf
- annog eich plentyn i gyrraedd ei lawn/llawn botensial ym mhob agwedd o fywyd ysgol
- gofalu am eich plentyn fel aelod gwerthfawr o gymuned yr ysgol beth bynnag fo'i/bo'i gefndir/chefndir, rhyw a chrefydd
- dilyn côd ymddygiad sydd yn annog awyrgylch ofalgar, ddiogel a disgybledig
- cynnig cwricwlwm eang i ateb gofynion pawb
- hysbysu rhieni o unrhyw newidiadau ym mholisïau'r ysgol ac i readru gwybodaeth gyffredinol am fywyd bob dydd yr ysgol •ymestyn gofal o safon uchel i bawb sy'n ymwneud â'r ysgol

Disgwylir i rieni/gwarcheidwaid:

- sicrhau presenoldeb prydlon a chyson ac anfon rheswm am unrhyw absenoldebau
- gefnogi safonau uchel o ran gwaith ac ymddygiad
- sicrhau bod gan yr ysgol y wybodaeth ddiweddaraf o ran cysylltu mewn argyfwng •sicrhau bod yr ysgol yn gwybod beth yw'r trefniadau amser mynd adref a phwy fydd yn casglu'r plant o'r ysgol ac i gefnogi'r côd ymddygiad sydd yn sicrhau awyrgylch ddiogel, ofalgar a disgybledig.
- adel i'r ysgol wybod os oes unrhyw broblemau ym mywyd eu plentyn sydd am amharu ar ei addysg/haddysg •fynychu cyfarfodydd rhieni i gael clywed am ddatblygiad eu plentyn
- gefnogi eu plentyn yn ei waith/gwaith cartref •gefnogi digwyddiadau cymunedol yr ysgol
- gefnogi holl bolisïau'r ysgol Gofynnir i'r rhieni ddarparu enwau, cyfeiriad a rhifau ffôn, rhag ofn y bydd angen cysylltu â hwy yn ystod oriau ysgol e.e. mewn achos o salwch neu ddamwain. Os ydi'r plentyn yn absennol, gofynnir i rieni ffonio'r ysgol i adael inni wybod mewn da bryd (cyn 9:30 y bore)

## Home school agreement

### The school wil:



- ensure that a broad and balanced teaching programme is provided, which meets the requirements of the Curriculum for Wales.
- Make every effort to ensure that all pupils work to the best of their ability.
- Make every effort to ensure a safe, motivated and caring environment for all pupils
- the school will provide regular homework depending on the age of the pupils.

### Parents/guardians are expected to:

- give their child every assistance and support with their education.
- support any activities set by the school including homework. attend parent evenings and meetings arranged for discussing pupil development. ensure that the child comes to school promptly.
- ensure that their child complies with the school's behaviour policy
- encourage the child to develop self-esteem and respect for others. contact the school immediately in any case of absence
- Parents are asked to provide names, addresses and telephone numbers, in case they need to be contacted during school hours e.g. in the event of an illness or if there is an accident. If the child is absent, parents are asked to phone the school to let us know before 9:30 a.m

### Y drefn gwyno

Mae'r AALl, yn unol â gofynion statudol, wedi sefydlu trefn i ystyried cwynion am y modd y mae cyrff llywodraethu'r ysgolion a'r Awdurdod Addysg yn gweithredu mewn perthynas â chwricwlwm ysgol a materion eraill cysylltiedig. Mae'r drefn hon wedi'i hamlinellu mewn dogfen bwrpasol yn y Gymraeg a'r Saesneg sydd ar gael i unrhyw riant sy'n dymuno gwneud cwyn. Pwysleisir, fodd bynnag, y gellir ymdrin â llawer o gwynion yn gyflym ac yn effeithiol drwy ystyriaeth anffurfiol yn seiliedig ar drafodaethau gyda'r pennaeth. Hwn yw'r cam rhesymol cyntaf, a bydd y Corff Llywodraethwyr yn disgwyl bod y cam yma wedi ei gyflawni cyn cyflwyno'r gwyn yn ffurfiol oddigerth i achosion eithriadol. Dylid cysylltu â'r ysgol i wneud apwyntiad i drafod unrhyw gwyn gyda'r pennaeth.

### Cwyn am y corff llywodraethwyr

Os oes unrhyw un am wneud cwyn swyddogol yn erbyn aelod o staff, dylid gwneud hynny'n ysgrifenedig i'r pennaeth. • Os oes unrhyw un am wneud cwyn swyddogol yn erbyn y pennaeth, dylid gwneud y gwyn yn ysgrifenedig i Gadeirydd y Corff Llywodraethol. • Os oes unrhyw un am wneud cwyn swyddogol yn erbyn aelod o'r Corff Llywodraethol dylid gwneud hynny'n ysgrifenedig i Gadeirydd y Corff Llywodraethol neu'r Is- Gadeirydd os yw'r gwyn yn erbyn y Cadeirydd.

### Complaints procedure

The LEA, in accordance with statutory requirements, has established a procedure to consider complaints regarding the operation of school governing bodies and the Education Authority in relation to the curriculum and other related matters. This procedure is set out in a document available in Welsh and English . However, many complaints can be dealt with effectively through informal consideration based on discussions with the Headteacher. This is the first reasonable step, and the Governing Body will expect this stage to be carried out before the complaint is formally submitted unless there are exceptional cases. The school should be contacted to make an appointment to discuss any complaint with the Headteacher.

### Complaints about the Governing body

If anyone wishes to make an official complaint against a member of staff, this should be done in writing to the Headteacher. If anyone wishes to make an official complaint against the Headteacher, the complaint should be made in writing to the Chair of the Governing Body. If anyone wishes to make an official complaint against a member of the Governing Body, this should be done in writing to the Chair of the Governing Body or Vice-chair, if the complaint is regarding the Chair.

Polisiau

Policies

## Derbyn plant i'r ysgol

Mae'r ysgol hon yn gweithredu yn unol â pholisi derbyn Awdurdod Addysg Sir Ddinbych fel â ganlyn:-

Caiff plant eu derbyn yn rhan amser ym Mis Medi yn dilyn eu pen-blwydd yn 3 oed ac yn llawn amser ym Mis Medi yn dilyn eu penblwydd yn 4 oed. Nid oes trosglwyddiadau awtomatig o'r meithrin i'r derbyn, a chan mai Awdurdod Addysg Sir Ddinbych yw'r awdurdod derbyn, rhaid cyfeirio unrhyw gais at y sir yn gyntaf. **Dewch i'r ysgol am sgwrs os y gallwn gefnogi mewn unrhyw ffordd.**

**Polisi codi tal ar rieni (Crynodeb)** Codir tâl llawn ar rieni disgyblion am bob gweithgaredd sy'n digwydd y tu allan i oriau ysgol oddigerth i'r hyn sy'n angenrheidiol i ofynion y Cwricwlwm i Gymru neu ofynion statudol Addysg Grefyddol am gostau bwyd a llety ar gyfer gweithgareddau preswyl a drefnir gan yr ysgol neu'r AALl os oes difrod i werslyfrau neu offer addysgol sy'n deillio o gamymddygiad disgybl. Gyda gweithgareddau dewisiol sy'n digwydd o bryd i'w gilydd yn ystod oriau ysgol, gofynnir am gyfraniadau gan rieni. Hysbysir y rhieni o'r dechrau mai gwirfoddol yw unrhyw gyfraniad, ond cedwir yr hawl i beidio parhau gydag unrhyw drefniadau os nad oes digon o gyfraniadau wedi dod i law.

## Polisi gwrth fwlio

Mae unrhyw fath o fwlio yn hollol annerbyniol. Mae'r ysgol yn ymateb yn gadarn ac yn drylwyr i bob achos o fwlio. Gwnaiff yr ysgol bob ymdrech hefyd i sicrhau nad yw bwlio yn digwydd. Mae gan yr ysgol Bolisi Gwrth-fwlio a weithredir yn gadarn a sensitif ym mhob achos a ddaw i'n sylw. Os oes unrhyw amheuaeth bod plentyn yn cael ei fwlio yn yr ysgol, erfynwn ar y rhiant neu'r gwarchodwr i drafod hyn gyda'r pennaeth fel y gallwn ymchwilio i'r amheuon yn drylwyr ac yn sydyn iawn.

## School admission policy

The school operates in accordance with the Denbighshire Education Authority's admissions policy : children are admitted part time in September following their 3rd birthday and full time in September following their 4th birthday. There are no automatic transfers from Nursery to Reception, and as the admission department is part of Denbighshire Education authority, the authority will consider the applications. Any application must be referred to the county first. **Please contact us at school if we can help.**

## Parents charging policy (summary)

Pupils' parents are charged fully for all activities that take place outside school hours unless it is necessary for the requirements of the curriculum for Wales or the statutory requirements of religious education, for costs of food and accommodation for residential activities arranged by the school or LEA any damage to educational equipment resulting from a pupil's misconduct.

With other activities that occur periodically during school hours, parental contributions are requested. Parents are informed at the beginning that any contribution is voluntary, but the right not to continue with any arrangements is retained unless sufficient contributions have been received.

## Anti Bullying policy

Any form of bullying is totally unacceptable. The school responds thoroughly to all instances of bullying. The school will also make every effort to ensure that bullying does not happen. The school has an anti-bullying policy that is firmly and sensitively implemented in all cases of bullying that comes to our attention. If there is any doubt that a child is being bullied at school, we ask the parents or carer to discuss this with the headteacher so that we can investigate thoroughly and quickly.

# Ysgolion Iach/ Healthy schools

Mae Ysgol Bro Elwern yn rhan o gynllun Ysgolion Iach Sir Ddinbych.

**Prif amcanion y cynllun yw:**

- datblygu agwedd gadarnhaol ysgol-gyfan at fwyd a maeth a sicrhau bod bwyta'n iach yn cael ei hyrwyddo
- datblygu'r ysgol fel man gwaith sy'n hyrwyddo iechyd cymdeithasol, corfforol ac emosiynol pob aelod o staff ·
- atgyfnerthu hunan werth a hyrwyddo iechyd meddwl yr holl ddisgyblion
- sicrhau cynlluniau tymor hir sy'n rhoi cyfle i bob disgybl gymryd rhan mewn gweithgareddau corfforol yn gyson ·
- sicrhau bod yr ysgol gyfan yn amgylchedd di-fwg, sy'n pwysleisio manteision peidio ysmygu
- sicrhau bod gan yr ysgol Bolisi Atal Cyffuriau a gefnogir gan raglen addysg ar gyffuriau ac alcohol
- i ddangos ymrywiad yr ysgol i Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb drwy weithredu ein Polisi a rhaglen addysg.

Ysgol Bro Elwern is part of the Denbighshire Healthy schools programme.

**The main aims of the programme is to;**

- Develop a positive whole-school approach to food and nutrition.
- Ensuring that healthy eating is promoted
- Develop the school as a place of work that promotes social, physical and emotional health for all staff
- Reinforcing the self-worth and promoting mental health of all pupils
- Ensure long-term plans that give all pupils an opportunity to partake in physical activities consistently
- Ensure that the whole school is a smoke-free environment, emphasising the benefits of not smoking
- Ensure that the school has a drug prevention policy supported by a drug and alcohol education programme
- To show the school's commitment to relationships and sex education through the implementation of our policy and education programme



## Toiledau

Fel ysgol sydd yn rhan o gynllun ysgolion iach, mae gennym bolisi ar ddarpariaeth toiledau yr ysgol. Nộd ein polisi yw i alluogi ein disgyblion i ddefnyddio'r cyfleusterau drwy gydol y dydd. Rydym yn darparu toiledau o ansawdd uchel, sydd yn cael eu glanhau yn ddyddiol drwy'r ysgol gyfan i holl gymuned yr ysgol yn unol a chynllun cydraddoldeb yr ysgol.

## Toilets

As a school that is part of the healthy schools scheme, we have a policy on the provision of school toilets. The aim of our policy is to enable our students to use the facilities throughout the day as needed. We provide high-quality toilets, which are cleaned daily across the whole school for the school community in accordance with the school's equality plan.

## Y Gymdeithas Rhieni ac Athrawon

Rydym yn ffodus dros ben o gael criw o rieni sy'n trefnu gweithgareddau arbennig er mwyn codi arian i'r ysgol. Bydd yr arian a gesglir yn cael ei gyfrannu at leihau costau tripiau ysgol, a phrynu adnoddau addysgol. Mae croeso cynnes i bob rhiant ymuno â'r cyfarfodydd. Mi fyddwn yn eich hysbysu am gyfarfodydd a gweithgareddau'r Gymdeithas Rhieni ac Athrawon drwy ein cylchlythyr wythnosol.

## Parent and Teacher Association

We are very fortunate to have a group of parents that arrange excellent fundraising activities for the school. The money raised from these activities is contributed towards travelling costs for school trips, and purchasing resources for the school. There is a warm welcome for every parent that join the meetings. We will inform you of meeting arrangements, and activities through our weekly newsletter.



DENBIGHSHIRE MUSIC CO-OPERATIVE
CERDD CYDWEITHREDOL SIR DDINBYCH
WWW.DENBIGHSHIREMUSIC.COM



## Ein cylchlythyr wythnosol

Mae gennym gylchlythyr wythnosol ( yn ol y galw). Mae'r cylchlythyr yn cael ei anfon i bob rhiant ar ffurf e-bost, ac mae o'n cael ei osod ar app yr ysgol hefyd.

## Our weekly newsletter

We have a weekly newsletter sent to all parents by e-mail, and the newsletter can also be seen on our school app.

## Gweithgareddau all-gyrsiol

Mae'r ysgol yn cynnig gwersi Offerynnol- drymio, piano, gitar neu llais. Bydd yr offerynnau ar fenthyg i'r disgyblion am ddim ond codir tâl am y gwersi hyn yn unol â pholisi'r Awdurdod Addysg. Mae'r ysgol hefyd yn cynnig amrywiaeth o glybiau ar ol ysgol, gan gynnwys: dawnsio, chwaraeon a codio.

## Extra curricular activities

The school offers musical Instrumental lessons- drums, piano, fiddle or voice. The instruments will be on loan to pupils for free but these lessons will be charged in line with the Education Authority's policy.

## Gweithgareddau ac Ymweliadau allgyrsiol

Mae Ysgol Bro Elwern yn cymryd rhan yng ngweithgareddau'r Urdd gan gystadlu yn yr Eisteddfod, ac mewn cystadlaethau chwaraeon a chogurdd. Byddwn yn trefnu ymweliadau addysgol yn rheolaidd fel ffordd o atgyfnerthu'r hyn a ddysgir yn y dosbarthiadau, ac fel sbardun thema. Bydd yr ymweliadau yn ymwneud â gwahanol feysydd o'r cwricwlwm megis ymweld â'r Oriel Gelf, amgueddfeydd, adeiladau'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol a.y.y.b. Fel arfer, rydym yn trefnu ymweliad preswyl addysgol i ganolfannau megis Gwersyll yr Urdd yn Llangrannog, Caerdydd neu Lan-llyn yn flynyddol.Trefnir teithiau blynyddol i'r holl ddosbarthiadau yn ystod Tymor yr Haf.

Urdd

## Extra-curricular visits and activities

Ysgol Bro Elwern takes part in the Urdd's activities, competing in the Eisteddfod, the sports and cooking competitions. We regularly organise educational visits as a way of reinforcing what is taught in the classrooms. The visits will cover different areas of the curriculum such as a visit to the Art Gallery, the museum, National Trust buildings etc. We also arrange educational residential visits to different outdoor centres such as the Urdd camps in Llangrannog, Cardiff and Glan-llyn. . Annual trips are arranged for all classes during the Summer Term.





## Cyfleoedd cyfartal

Mae rhoi cyfle cyfartal i bob disgybl, aelod o staff a chymuned yr ysgol ar bob adeg heb wahaniaethu ar sail rhyw, crefydd, lliw, iaith nac anabledd yn bwysig iawn i ni. Mae croeso i chi weld polisi cyfle cyfartal yr ysgol drwy gysylltu hefo'r pennaeth.

## Disgyblion ag anableddau a'r cynllun hygyrchedd

Mae cynllun hygyrchedd ac anabledd yr ysgol yn sicrhau mynediad rhwydd i ddisgyblion a rhieni sydd ag anabledd. Gwneir trefniadau rhwng yr ysgol a'r cartref pan fo disgybl sydd ag anabledd neu Anghenion Dysgu Ychwanegol yn mynychu. Cysylltwch ar Pennaeth am ragor o fanylion.

## Gwasanaethau cefnogi

Bydd y nyrs a'r deintydd yn ymweld â'r ysgol yn achlysurol. Mae'r ysgol yn cyd-weithio'n agos hefo nifer o asiantaethau sydd yn ein cefnogi, gan gynnwys Therapyddion iaith a lleferu, seicolegydd addysgol a swyddog cyswllt teulu yr ysgol.

## Cydraddoldeb hiliol

Mae gan yr ysgol bolisi Cydraddoldeb Hiliol. Cysylltwch â'r pennaeth os yr hoffech ei weld.





## Equal opportunities

Providing equal opportunities for all pupils, teachers, and the school community at all times without discrimination on the grounds of sex, religion, colour, language or disability is very important to us. You are welcome to see our equal opportunities policy, by contacting the head teacher.

## Pupils with disabilities and our accessibility plan

The school's accessibility and disability plan ensures easy access for pupils and parents with disabilities. Arrangements are made between the school and home when a pupil with disabilities or additional learning needs starts at the school. Please contact the Headteacher if you would like further details.

## Support Services

The nurse and dentist will visit the school occasionally. The school works closely with a number of agencies that support, including speech and language services, educational psychologist and our family link officer.

## Race equality

The school has a Race Equality policy. Please contact the Headteacher if you would like to see our policy.

## Trosglwyddo i'r Uwchradd

Fel rheol, mae disgyblion Ysgol Bro Elwern yn trosglwyddo i Ysgol Bryn Hyfryd, Rhuthun, neu Ysgol Godre'r Berwyn, Y Bala ar gyfer eu haddysg Uwchradd. Rydym yn cyd-weithio'n agos hefo'r ysgolion uwchradd wrth bontio, ac yn ymdrechu'n galed i sicrhau bod y trosglwyddiad o'r ysgol gynradd i'r uwchradd mor llyfn a hwylus â phosibl:

- Bydd disgyblion Blwyddyn 6 a'u rhieni yn cael gwahoddiad i noson agored yn yr ysgol uwchradd yn ystod Tymor yr Hydref i gwrdd â'r athrawon a'r disgyblion.
- Bydd yr athro/wes sy'n gyfrifol am Flwyddyn 7 yn ymweld â'r ysgolion cynradd yn y dalgylch i siarad hefo'r disgyblion a'u rhieni/gwarcheidwaid.
- Bydd disgyblion Blwyddyn 6 yn treulio ychydig o ddyddiau yn yr ysgol Uwchradd yn ystod Tymor yr haf.

## Transition to Secondary

Usually, Ysgol Bro Elwern pupils transfer to Ysgol Bryn Hyfryd, Ruthin, or Ysgol Godre'r Berwyn, Y Bala for their Secondary School education. We work closely together with the secondary schools during transition and are dedicated to ensure that the transition is as smooth as possible:

- In Year 6, pupils and their parents will be invited to an open evening at the secondary schools during the Autumn Term.
- The learning manager for year 7 in secondary schools will visit the pupils and their parents/guardians.
- Year 6 pupils will spend a few days at the secondary school during the summer term.

# DIOLCH YN FAWR!

Dilynwch ni ar:
Follow us on:
facebook a instagram

Diolch i chi am ddarllen ein prosbectws.

Mae croeso i chi gysylltu hefo ni i drafod ymhellach, neu i drefnu i ddod i ymweld â ni yn yr ysgol.

# THANK YOU VERY MUCH!

You're welcome to contact us to discuss anything further, or contact to make arrangements to visit us at school.

Rhif ffôn
Phone number: 01490 412 332
Cyfeiriad e-bost/ email address: ysgol.broelwern@sirddinbych.gov.uk